**COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR POLISI A CHYLLID, CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FERCHER, 27AIN MAWRTH 2019 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Chris Hughes, Cadeirydd
Cynghorwyr H. Fleet, D. Howcroft, M. Jones, A. Kealey, H. Meredith, M. Pickard, P. Richards, K. Swindon.

**SWYDDOG:** Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref
Miss L. Austin, Swyddog Gweinyddol Cynorthwyol

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rachael Gill, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)
Alun Pritchard, Rheolwr Partneriaeth – Motorsport DU

**424/18 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr A. Khan, A. Mason ag A. Pearson.

**425/18 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Datganwyd y cysylltiadau canlynol:
Cynghorydd H Fleet – cysylltiad na fyddai'n rhagfarnu yn eitem 11 – Lwfans Ward Aelodau: Cyfeillion Llandrillo yn Rhos
Cynghorydd A Kealey - cysylltiad na fyddai'n rhagfarnu yn eitem 11 - Lwfans Ward Aelodau: Clwb Pêl-droed Hen Golwyn
Cynghorydd M Pickard, cysylltiad na fyddai'n rhagfarnu yn eitem 11 – Lwfans Ward Aelodau: NWAMI
Cynghorydd H Meredith, cysylltiad personol ag un a fyddai'n rhagfarnu yn eitem 16 - Ymddiriedolwr o Gronfa Ymddiriedolaeth Syr John Henry Morris Jones

**426/18 Cofnodion:**

***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 13eg Chwefror 2019.***

**427/18 Ymwelwyr a'r Pwyllgor:**

Croesawyd Rachael Gill, CBSC ag Alun Pritchard, Motorsport DU i'r cyfarfod gan y Cadeirydd er mwyn iddynt annerch y Pwyllgor am ddigwyddiad fydd yn dod i'r ardal yn ddiweddarach eleni.

Diolchodd Rachael i'r Cyngor Tref am eu cefnogaeth barhaol a rhoddodd amlinelliad o'i swyddogaeth wrth hybu CBSC fel man i gynnal digwyddiadau rhyngwladol. Bu'n gweithio gyda Rali Cymru GB am nifer o flynyddoedd a chyflwynodd Alun i'r Pwyllgor, fel cynrychiolydd Motorsport UK. Eglurodd Alun ei fod yn ceisio cefnogaeth y Cyngor Tref i ymestyn peth o'r adloniant a'r gweithgareddau i ganol tref Bae Colwyn a Llandrillo yn Rhos pan fydd Rali Cymru GB yn dod i'r Sir unwaith eto ym mis Hydref 2019.

Dangosodd Alun fideo i'r Aelodau, o Rali Cymru GB a gynhaliwyd yn Llandudno yn 2018. Cyhoeddwyd bydd y Parc Gwasanaethau yn cael ei leoli yn Llandudno - yn y gorffennol, hyd at 2013, cafodd ei leoli yng Nghaerdydd ac yna fe'i symudwyd i Lannau Dyfrdwy; o ran bri, roedd y 'rhan strydoedd' yn ail yn unig i Ff1; bu Cymru yn gyson yn rhan o'r digwyddiad ers 1970. Yn 2017 cafwyd 73 miliwn o wylwyr teledu a chyrhaeddwyd 83 miliwn ar y cyfryngau cymdeithasol ac fe gwblhawyd 70,000 o oriau gwirfoddoli.

Y cynllun ar gyfer 2019 yw cael Pencadlys y Digwyddiad yn Llandudno (ar sail 4 diwrnod), gydag 'Ymadawiad Mawreddog' yn y gogledd orllewin ar nos Iau a Rhan Arbennig yn yr ardal ar nos Sadwrn (cyfanswm o 20-25 o rannau). Bydd mwy o fanylion yn cael ei ryddhau yn y ddau fis nesaf.

Yna gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau i Rachael ag Alun am y digwyddiad arfaethedig (e.e. y lleoliad, mesurau diogelwch, rheoli tyrfaoedd, cau ffyrdd / effaith ehangach, tocynnau, cysylltu busnesau, hysbysu busnesau a thrigolion, bras amseru, y posibilrwydd o gael ffilm fideo, y posibilrwydd o gael cysylltiad byw i ganol y dref ayb) a chafwyd atebion llawn.

Yna fe gadarnhawyd gan Rachael ag Alun mai'r swm a ddisgwylid i gefnogi gweithgareddau canol y dref ar hyn o bryd oedd £15,000. Dywedodd Rachael ei bod yn annhebygol y cynhelir cyngerdd ar ail ddiwrnod Mynediad Pawb i Eirias eleni, ac felly allai hyn helpu tuag at y swm angenrheidiol. Disgwylir i lwybr y daith cael ei gyhoeddi yng nghanol mis Mai gyda Chysylltiadau Cyhoeddus ar wahân cyn Prom Xtra Bae Colwyn fel y gellir hybu'r digwyddiad ar yr adeg honno.

Mewn perthynas â'r pryderon am yr effaith ar doriadau yn y gyllideb ar lefel Cyngor Sir, dywedodd Rachael, os na fyddai'r Cyngor Sir yn cefnogi digwyddiadau o bwys, yna o fewn ychydig flynyddoedd, fe gollir y momentwm a grëwyd oherwydd mae'n cymryd nifer o flynyddoedd i ddenu digwyddiadau yn ôl i'r ardal yn y lle cyntaf. Cytunodd yr Aelodau mai economi ffôl byddai torri'n ôl ar gyllido digwyddiadau.

Diolchwyd i Rachael ag Alun am eu cyflwyniadau a gadawsant y cyfarfod.

- Gadawodd y Cynghorydd D. Howcroft y cyfarfod yn y pwynt yma hefyd.

**428/18 <u>Materion yn Codi o'r Cofnodion:</u>**

**a. Cofnod 352/18(a) – Cyfrifon Theatr Colwyn 2017/18:**

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, ymateb gan Theatr Colwyn am linell 5255 'Twristiaeth a Hamdden' (£80,184) yn yr adroddiad ar y gyllideb. Mae hwn yn cyfeirio at staff technegol, staff tocynnau a staff gweinyddol Venue Cymru sy'n cynnwys Theatr Colwyn hefyd.

***Penderfynwyd derbyn a nodi'r ohebiaeth.***

**b. Cofnod 352/18(b) - Ymrwymiad gydag Ieuenctid:**

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am ei chyfarfodydd gyda rhai a allai helpu i gyllido a gydag Emma Pugh (CVSC), Catrin Jarvis (Cyngor Ieuenctid CBSC) a Rachel Simmonds (Gwasanaeth Ieuenctid Conwy). Fe nodwyd bod Rachel am roi cyflwyniad i gyfarfod nesaf y Cyngor (Ebrill) am y newidiadau yn narpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid Conwy. Bydd y Clerc yn diweddaru ei hadroddiad ac yn ei gyflwyno i'r cyfarfod hwnnw, ac mi fydd yn cynnwys argymhellion am weithio'n agosach mewn partneriaeth gyda mudiadau eraill sy'n ymgysylltu a phobl ieuanc yn lleol.

Dywedodd y Clerc wrth y Pwyllgor ei bod am fynychu Gweithdy Swyddfa Archwilio Cymru ar Ymrwymo ac Ieuenctid ar ddydd Iau 29ain Mawrth.

***Penderfynwyd nodi diweddariad y Clerc a disgwyl am adroddiad diweddariad pellach i'r Cyngor.***

**(c) Cofnod 354/18 – Parthau Gwahardd Cŵn:**

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, ymateb gan GBSC oedd yn cadarnhau bod y gwaharddiad tymhorol presennol o 1 Mai i 30 Medi yn parhau i fodoli. Cafwyd trafodaeth am ba mor rhwystredig oedd y sefyllfa ac nad oedd perchnogion cŵn yn cymryd y cyfrifoldeb o lanhau ar ôl i'w cŵn baeddu a bod cynnydd yn y nifer o gwynion am y sefyllfa. Fe nodwyd hefyd nad oedd CBSC wedi penodi cwmni arall i gymryd lle Kingdom hyd yn hyn. Roedd rhai Cynghorwyr Sir yn amharod i gefnogi mwy o waith gorfodi.

***Penderfynwyd derbyn yr ymateb a'i nodi.***

**(ch) Cofnod 357/18 – Lwfansau Aelodau:**

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am Lwfansau Aelodau a dywedodd y gellir parhau i ddefnyddio'r meddalwedd cyflogres bresennol hyd at 4 aelod o'r staff a'r 3 Cynghorydd a hawliodd eu lwfans sylfaenol yn 2018/19.

Dywedodd y Clerc wrth y Pwyllgor ei bod wedi anfon cais ffurfiol at CthEM i ofyn am ffurflen rhyddhad o dreth / Y.C. ar y lwfans sylfaenol, ond ni chafwyd ateb hyd yn hyn.

***Penderfynwyd nodi adroddiad y Clerc.***

**429/18 <u>Cyllid:</u>**

**a.** ***Penderfynwyd rhoi awdurdod am y taliadau a wnaed ar ran y Cyngor am y cyfnod 1/2/2019 hyd at 22/3/2019 sy'n ymddangos yn Atodiad 'A' sydd gyda hwn.***

**b.** ***Penderfynwyd derbyn a llofnodi'r copi o ddatganiadau cysoni'r banc fel yr oedd ar 28/2/2019.***

**c.** Cyflwynodd y Clerc , er gwybodaeth, gohebiaeth am ail-fuddsoddi'r Adnau Tymor gyda Banc Lloyds am 11 mis pellach.

***Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth a'i nodi.***

**ch** Cyflwynodd y Clerc gohebiaeth oddi wrth CCLA er gwybodaeth.

***Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth a'i nodi.***

**430/18 Llywodraeth Cymru:**

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol er gwybodaeth / i gael ei ystyried:

**a. Cynlluniau i ymdrin â phlastig a gwastraff pecynnau:**

**(i)** Cynllun Ad-dalu Ernes

**(ii)** Diwygio'r system Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr y Pecynnau'r DU

***Penderfynwyd cefnogi'r ddau gynllun mewn egwyddor.***

**431/18 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):**

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol er gwybodaeth / i gael ei ystyried:

**a. 'IMAGINE' Bae Colwyn -** Nodiadau o gyfarfod y Grŵp Llywio a gynhaliwyd ar 6ed Mawrth a nodyn atgoffa am y lansiad sydd i'w gynnal ar 9fed Ebrill.

***Penderfynwyd derbyn a nodi nodiadau cyfarfod y Grŵp Llywio.***

**b. Byw yn y Bae -** Rhoddodd y Cynghorydd C. Hughes a'r Clerc adroddiad byr ar lafar am gyfarfod Bwrdd Rheoli Strategaeth Byw yn y Bae. Y prif bwyntiau oedd: Adnewyddu Tai - y rhan nesaf bydd Ffordd Abergele, o Ffordd Greenfield i Ffordd Bay View, ynghyd a Ffordd Bay View a Ffordd Gefn Bay View; Lan y Môr - cyfeiriwyd at faw cŵn; 7 Ffordd Abergele - bu peth oedi oherwydd gwaith metel strwythurol, ond fe obeithir cwblhau'r gwaith a'i drosglwyddo i Ymddiriedolaeth erbyn diwedd mis Gorffennaf; Cynllun Datblygu Eirias - disgwyl am adroddiad ynglŷn â datblygu cyfleusterau hamdden dan do; Ffordd Douglas - Delyth (Gwasanaethau Cyfreithiol) yw Cydlynydd y Prosiect erbyn hyn, a bydd y prosiect yn golygu creu canolfan newydd i deuluoedd; adeiladau CREST yn cynnwys Cymunedau Ar Waith; Buddsoddiad Lleol Ward Glyn; SPYCE a'r adeilad y tu cefn i Neuadd y Dref (sydd a'r posibilrwydd o allu agor i fynnu ar Ffordd Douglas).

**c. Offer Chwarae:**

**(i)** Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, cadarnhad na fu'r cais gan GBSC i'r Loteri Genedlaethol 'Gwobrau i Bawb' yn llwyddiannus. Dywedodd y Clerc y byddai'n rhannu'r adborth o'r cais a gyflwynwyd, pan dderbynnir ef.

***Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.***

**(ii)** Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth a mater i'w ystyried, cais gan Rhys Eden, Archwilydd CBSC, i gael defnyddio rhan o'r cyllid a addawyd gan y Cyngor hwn tuag at waith atgyweirio, nad yw'n argyfyngus, i feinciau ag offer chwarae pren. Dywedodd y Clerc wrth y Pwyllgor ei bod wedi gofyn am fwy o wybodaeth am y lefel o wariant hyd yn hyn (ar y gwaith a flaenoriaethwyd), ond ni chafwyd ateb hyd yn hyn.

Trafodwyd hefyd yr adroddiad a ymddangosodd yn y wasg yn ddiweddar am graffiti yn y parc. Barn yr Aelodau oedd i hyn cael ei orliwio, oherwydd enwau a ysgrifennwyd ar gysgodfa fach pren ac nid oedd unrhyw graffiti ar unrhyw ddarn o offer y parc.

***Penderfynwyd gohirio cais Rhys hyd nes y derbynnir ateb ac / neu cynhelir cyfarfod i drafod yr hyn a wariwyd hyd yn hyn a faint o'r gwaith a flaenoriaethwyd sy'n parhau.***

**432/18 Yr Archwiliad Allanol:**

Cyflwynodd y Clerc e-bost a llythyr ynglŷn â'r newidiadau i gyfundrefn yr Archwiliad Allanol o 2020/21 ymlaen, er gwybodaeth.

***Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth a disgwyl am fwy o wybodaeth yn y man.***

**433/18 Penodi Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion 2019/20:**

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, rhan o'r Rheolau Sefydlog newydd sy'n gofyn bod y Cyngor yn penodi Cadeirydd (ac Is-Gadeirydd) i'r Pwyllgorau Sefydlog. Trafodwyd pa mor bwysig oedd i aelodau'r Pwyllgorau fod a hyder yn y Cadeirydd ac felly teimlad yr aelodau oedd y dylai'r Cadeirydd cael ei ethol gan y Pwyllgor ei hun ac nid y Cyngor.

***Penderfynwyd argymell bod y Cyngor yn diwygio Rheol Sefydlog 4(d)(vi) i alluogi'r Pwyllgorau Sefydlog i ethol ei Gadeirydd.***

**434/18 Lwfansau Ward Aelodau Lleol:**

Cyflwynodd y Clerc mwy o wybodaeth am brosiect y Cynghorydd J. Pearson a ohiriwyd o'r cyfarfod diwethaf. Cafodd y cynnig ei gyfeirio at gyfarfod Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 19eg Mawrth. Roedd y Pwyllgor yn barod i gefnogi'r cais mewn egwyddor, ar ôl gofyn beth oedd y rhesymau am fod angen cael y camera a'r cadarnhad bod yr heddlu lleol yn gefnogol. Argymhelliad y Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio oedd y dylid cymeradwyo'r cynnig.

***Penderfynwyd cymeradwyo'r prosiect a gynigiwyd a rhoi awdurdod i'w dalu.***

Yna cyflwynodd y Clerc cynigion am brosiectau i gael eu hystyried oddi wrth:

**a.** Cynghorydd C Hughes - £50 cyfraniad tuag at gyrbau isel yng nghanol y dref
**b.** Cynghorydd B Barton - £300 ar gyfer diffibriliwr yn Ward Eirias
**c.** Cynghorydd A Kealey - £300 i Glwb Pêl-droed Hen Golwyn
**d.** Cynghorydd A Mason - £600 tuag at iPads i Ysgol Hen Golwyn
**e.** Cynghorydd C Brockley - £200 tuag at Gyfeillion Llandrillo yn Rhos
**f.** Cynghorydd D Howcroft - £150 tuag at Elusennau Llandrillo yn Rhos
**g.** Cynghorydd G Campbell - £150 tuag at Gyfeillion Llandrillo yn Rhos
**h.** Cynghorydd H Fleet - £100 tuag at Gyfeillion Llandrillo yn Rhos
**i.** Cynghorydd H Meredith - £300 tuag at sgip cymunedol (y lleoliad i'w gadarnhau)
**j.** Cynghorydd M Tasker - £600 tuag at Gyfeillion Llandrillo yn Rhos
**k.** Cynghorydd S Williams - £150 tuag at Brosiect Fan Cymunedol 'Soup 'n' Sox'

**l.** Cynghorydd S Williams - £150 tuag at Shedz Ieuenctid Bae Colwyn Cyf.
**m.** Cynghorydd M Worth - £220 tuag at adfer Cloc Cofeb Andrew Fraser
**n.** Cynghorydd A Khan - £300 cyfraniad tuag at gatiau yn Theatr Colwyn
**o.** Cynghorydd C Matthews - £150 tuag at Fanc Bwyd Cymunedau ARC
**p.** Cynghorydd D Bradley - £500 I ddiweddaru system gwres canolog Sgowtiaid Hen Golwyn
**q.** Cynghorydd M.A. Jones - £200 I ddiweddaru system gwres canolog Sgowtiaid Hen Golwyn
**r.** Cynghorydd M Jones - £300 tuag at sgip cymunedol ar Ffordd Tan y Lan, Hen Golwyn
**s.** Cynghorydd K Swindon - £170 I ddiweddaru system gwres canolog Sgowtiaid Hen Golwyn

***Penderfynwyd cymeradwyo talu am gynigion a – s..***

**435/18 <u>Gwasanaethau TG Microshade:</u>**

Cyflwynodd y Clerc e-bost er gwybodaeth, yn dweud bydd y gost o wasanaethau TG y Cyngor yn codi o £10.30 y mis oherwydd y codiad yng nghostau trwydded meddalwedd Microsoft.

***Penderfynwyd nodi'r cynnydd yn y costau.***

**436/18 <u>Y Post Brenhinol:</u>**

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, manylion am godiad ym mhrisiau ffrancio post o 25 Mawrth. Fe nodwyd nad oedd prisiau stampiau wedi codi hyd yn hyn.

***Penderfynwyd nodi'r codiad ym mhrisiau ffrancio post.***

**437/18 <u>Dyddiadau Cyfarfodydd:</u>**

Cyflwynodd y Clerc cais i ohirio dyddiad cyfarfod mis Hydref o un wythnos (o'r 2$^{il}$ i'r 9$^{fed}$ Hydref) er mwyn iddi allu mynychu Cynhadledd Genedlaethol Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ar yr 2$^{il}$ / 3$^{ydd}$ Hydref.

***Penderfynwyd cymeradwyo'r newid i ddyddiad cyfarfod mis Hydref.***

**438/18 <u>Dawns Fasgiau'r Maer:</u>**

Darllenodd y Clerc i'r cyfarfod, er gwybodaeth, diweddariad gan y Maer, y Cynghorydd S. Williams, yn cadarnhau bod y gwerthiant o docynnau ar gyfer Dawns Fasgiau'r Maer wedi bod yn 'wael', ac oherwydd hyn bu'n rhaid i'r Maer, yn anfodlon, penderfynu canslo'r digwyddiad.

***Penderfynwyd nodi a chadarnhau penderfyniad y Maer i ganslo'r digwyddiad.***

**439/18 <u>Grantiau:</u>**

(a) **Grantiau Ieuenctid:** Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth ychwanegol i gael ei ystyried gan Sgowtiaid Antur y Gogarth parthed y cais am Grant Ieuenctid ar gyfer 2018/19.

***Penderfynwyd nodi'r wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd i gefnogi'r cais a rhoi awdurdod i dalu'r Grant Ieuenctid i Sgowtiaid Antur y Gogarth.***

(b) **Grantiau am Ddigwyddiadau:**

**(i)** Cyflwynodd **y** Clerc Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gan CAIS, ac fe nodwyd iddynt gytuno i weinyddu'r grant ar gyfer Gŵyl y Pedwardegau yn 2019 (yn lle Grŵp Bwydydd Gogledd Orllewin Cymru). Croesawyd y penderfyniad gan yr Aelodau, a welwyd i fod yn gam cadarnhaol.

***Penderfynwyd nodi'r CLG a rhoi awdurdod am y taliad digwyddiad i CAIS.***

**(ii) Digwyddiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2019:**

Trafodwyd gan y Pwyllgor, y cais a wnaed gan Rachael Gill (CBSC) ag Alun Pritchard (Motorsports UK) yn gynharach yn y cyfarfod, am gyllid tuag at y digwyddiadau ym Mae Colwyn / Llandrillo yn Rhos ar ddydd Sadwrn 5ed Hydref 2019.

Mynegwyd pryder gan yr Aelodau am broflun troed carbon rasys modur yn gyffredinol a holwyd a oedd camau ffordd y digwyddiad yn anfon neges anghywir i yrwyr ieuanc. Holodd un Aelod a ellid cynnig digwyddiadau rhad ac am ddim i wneud yn iawn am y difrod amgylcheddol rasys modur parthed cynaladwyedd / di-carboneiddio.

***Penderfynwyd argymell cymeradwyo taliad o £15,000 (£5,000 o gyllideb Digwyddiadau, £10,000 o gyllideb Mynediad Pawb i Eirias 2019/20) tuag at y digwyddiadau yng nghanol trefi Bae Colwyn / Llandrillo yn Rhos mewn cysylltiad â Digwyddiad Rali Cymru GB.***

***Fe benderfynwyd ymhellach i ofyn i'r Clerc cysylltu â Rachael Gill i esbonio'r pryderon am froflun y troed carbon a'r neges a anfonir i genedlaethau'r dyfodol, ac i ofyn a fyddai'n bosibl cynnal rhyw faint o ddigwyddiadau 'gwyrdd' priodol yn nigwyddiadau ehangach canol y trefi, i liniaru yn erbyn y ffactorau hyn.***

**(c) Grantiau Bach:**

(i) Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau am Grantiau Bach a dderbyniwyd ar gyfer y 4ydd Chwarter fel maent yn ymddangos yn Atodiad 'B' sydd gyda hwn, i gael eu hystyried.

***Penderfynwyd argymell bod ceisiadau A, B, C, D, E ag F fel maent yn ymddangos yn Atodiad 'B' sydd gyda hwn yn cael eu cymeradwyo.***

**(ii)** Cyflwynodd y Clerc cais i'w ystyried i gyfrannu unrhyw arian sy'n weddill i Gronfa Ymddiriedolaeth Syr John Henry Morris Jones ag Elusennau Llandrillo yn Rhos.

***Penderfynwyd cyfrannu £1,500 i Gronfa Ymddiriedolaeth Syr John Henry Morris Jones ag £890 i Elusennau Llandrillo yn Rhos allan o'r hyn sy'n weddill yng nghyllideb y grantiau bach 2018/19.***

**(iii)** Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Clerc, bydd unrhyw tan wariant yng nghyllideb Lwfansau Cynghorwyr 2018/19 yn cael ei drosglwyddo i gyllideb y grantiau bach 2019/20. Nid oedd y swm yn hysbys ar hyn o bryd a gofynnodd y Clerc i unrhyw hawliau teithio gan Gynghorwyr cael eu cyflwyno mor fuan ag sy'n bosibl.

***Penderfynwyd nodi hyn.***

**(ch)** Fe nodwyd y llythyrau o ddiolch / adroddiadau a dderbyniwyd oddi wrth y mudiadau canlynol a dderbyniodd grantiau:

- **i** Oriel Colwyn
- **ii** Y Pentan

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40 p.m.

.....................................................Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE POLICY AND FINANCE COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY AT 6.30 P.M. ON WEDNESDAY 27TH MARCH 2019**

**PRESENT**: Cllr Chris Hughes, Chairman
Cllrs: H Fleet, D Howcroft, M Jones, A Kealey, H Meredith, M Pickard, P Richards, K Swindon

**OFFICER**: Mrs C Earley, Town Clerk
Miss L Austin, Administration Assistant

**IN ATTENDANCE:** Rachael Gill, CCBC
Alun Pritchard, Partnership Manager – Motorsport UK

**424/18 Welcome and Apologies for Absence:**

The Chairman welcomed Members to the meeting. Apologies were received from Cllrs: A Khan, A Mason and T Pearson.

**425/18 Declarations of Interest:**

Members are reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. The following interests were declared:
Cllr H Fleet – non-prejudicial interest in item 11 – Members Ward Allowance: Friends of Rhos on Sea
Cllr A Kealey, non-prejudicial interest in item 11 – Members Ward Allowance: Old Colwyn FC
Cllr M Pickard, non-prejudicial interest in item 11 – Members Ward Allowance: NWAMI
Cllr H Meredith, personal and prejudicial interest in item 16 – as a Trustee of the Sir John Henry Morris Jones Trust Fund

**426/18 Minutes:**

***Resolved to approve and sign, as a correct record, the Minutes of the last meeting held on the 13th February 2019.***

**427/18 Visitor to the Committee:**

The Chair welcomed Rachael Gill, CCBC, and Alun Pritchard, Motorsport UK, to address the Committee regarding an event coming to the area later this year.

Rachael thanked the Town Council for their continued support and outlined her role to promote CCBC as a destination for world class events. She had worked with Wales Rally GB for a number of years and introduced Alun as a representative of Motorsport UK. He explained that they were looking for support from the Town Council to extend some entertainment and activities into the town centres of Colwyn Bay and Rhos on Sea, when the Wales Rally GB comes to the County again in October 2019.

Alun showed members a video from the Wales Rally GB event held in Llandudno in 2018. It had been announced that the Service Park would now be located in Llandudno – it had previously been based in Cardiff until 2013 and then moved to Deeside; the 'street stage' was second only to F1 in terms of prestige; Wales had consistently been involved since 1973. In 2017, there had been 73 million TV viewers, a reach of 83 million on social media and 70,000 volunteering hours completed.

In 2019, the plan was to have the Event HQ in Llandudno (based for 4 days), with a 'Grand Depart' in the North West on the Thursday evening and a Special Stage in the area on Saturday evening (20-25 stages altogether). Further details would be released in the next couple of months.

Members then asked Rachael and Alun various questions regarding the proposed event (e.g. location, protection measures, crowd control, road closures/wider impact, ticketing, business involvement, business and resident notifications, approximate timings, potential for video game footage, possibility of a life stream to the town centre etc) and full responses were provided.

Rachael and Alun then confirmed the amount they were provisionally looking for to support the town centre activities was £15,000. Rachael commented that it was unlikely there would be a second day for the Access All Eirias concert this year, so that may assist with budget provision. The route launch is expected to be in mid-May, with separate PR prior to Colwyn Bay Prom Xtra so that the event could be promoted then.

With regards to concerns about the impact of budget cuts at County Council level, Rachael said that if the County Council did cut its support for major events, within just a few years these would be missed and the momentum would have been lost, as it takes many years to get the events to come to the area in the first instance. Members agreed that cutting funding for events is a false economy.

Rachael and Alun were thanked for their presentation and they retired from the meeting.

- Cllr D Howcroft also left the meeting at this juncture.

**428/18 <u>Matters Arising from the Minutes</u>**

**(a) Min. 352/18(a) – Theatre accounts for 2017/18:**

The Clerk submitted, for information, a response from Theatr Colwyn regarding line 5255 'Tourism and Leisure' (£80,184) in their budget report, which relates to Venue Cymru technical, box office and administrative staff, who also cover Theatr Colwyn.

***Resolved to receive and note the correspondence.***

**(b) Min. 352/18(b) – Youth Engagement:**

The Clerk gave a brief verbal report following meetings held with potential funders and with Emma Pugh (CVSC), Catrin Jarvis (CCBC Youth Council) and Rachel Simmonds (Conwy Youth Service). It was noted that Rachel will be giving a presentation on changes to Conwy's Youth Service provision at the next Council meeting (April) and the Clerk will update and submit her report to that meeting, to include recommendations regarding working more closely in partnership with other bodies who involve young people locally.

The Clerk also informed the Committee she would be attending the Wales Audit Office Workshop Event on Youth Engagement on Thursday 29th March.

***Resolved to note the Clerk's update and await the updated report to Council.***

**(c) Min. 354/18 – Dog Exclusion Zones:**

The Clerk submitted, for information, a response from CCBC which confirmed that the current seasonal exclusion from 1 May to 30 September is still in place. Members discussed how the situation was frustrating and that dog owners are not taking responsibility for picking up after their dogs and that complaints about the issue are rising. It was also noted that CCBC have not yet appointed a replacement to Kingdom, as some County Councillors are reluctant to support greater enforcement action.

***Resolved to receive and note the response.***

**(d) Min. 357/18 – Members' Allowances:**

The Clerk gave a brief verbal report regarding Members' Allowances and advised that the existing payroll software could still be used for the 4 staff members and the 3 councillors who have claimed their basic allowance for 2018/19.

The Clerk also informed the Committee that she had sent a formal request to HMRC to apply for an exemption from tax/NI on the basic allowance, but that no response had been received as yet.

***Resolved to note the Clerk's report.***

**429/18 <u>Finance</u>:**

***(a) Resolved to authorise payments made on behalf of the Council for the period 1/2/2019 to 22/3/2019, as detailed in Schedule 'A' attached.***

***(b) Resolved to receive and sign a copy of the bank reconciliations as at 28/2/2019.***

**(c)** The Clerk submitted, for information, correspondence about the reinvestment of the Term Deposit with Lloyds Bank for a further 11 months.

***Resolved to receive and note the correspondence.***

**(d)** The Clerk submitted, for information, correspondence from CCLA.
***Resolved to receive and note the correspondence.***

**430/18** **Welsh Government:**

The Clerk submitted for information/consideration the following correspondence:

**(a) Proposals to tackle plastic and packaging waste:**
**(i)** Deposit Return Scheme
**(ii)** Reforming the UK Packaging Producer Responsibility System

***Resolved to support both of these schemes, in principle.***

**431/18** **Conwy County Borough Council:**

The Clerk submitted the following documents, for information/consideration:

**(a) IMAGINE Colwyn Bay** – Notes from a meeting of the Steering Group, held on 6th March and a reminder about the launch event on 9th April.

**Resolved to receive and note the Steering Group meeting notes.**

**(b) Bay Life -** Cllr C Hughes and the Clerk gave a brief verbal report on the March meeting of the Bay Life Strategic Management Board. The key points were: Housing Renewal – the next phase will cover Abergele Road, from Greenfield Road to Bay View Road, together with Bay View Road and Back Bay View Road; Waterfront – dog mess issues mentioned; 7 Abergele Road – there had been some delays due to structural steel works, but hope to complete building works and transfer to Trust by end of July; Eirias Development Plan – waiting for report regarding internal development of leisure facilities; Douglas Road – Delyth (Legal Services) is now Project Coordinator, the project potentially involves a new family centre, CREST buildings, incorporating Communities For Work, Glyn Ward Invest Local, SPYCE and the rear annexe of Town Hall (which has the potential to open up onto Douglas Road).

**(c) Play Equipment**:

**(i)** The Clerk submitted, for information, confirmation that an application to the National Lottery 'Awards for All' grant pot by CCBC had not been successful. The Clerk said she would share feedback from the application, when it has been received.

***Resolved to note the information.***

**(ii)** The Clerk submitted, for information and consideration, a request from Rhys Eden, CCBC Inspector, to use some of the Play Equipment funding pledged by this Council towards non-critical repairs to benches and timber play equipment. The Clerk advised the Committee that further information on the level of spending so far (on priority works) had been requested, but not yet been received.

Ei hun ac n id yn Cyngor.Members also discussed the recent press report regarding graffiti in the park and felt that the report had been over-exaggerated, as there was just a small wooden shelter with names on it and no graffiti on any of the park equipment.

***Resolved to Defer consideration of the request from Rhys until a response had been received and/or a meeting held to discuss what had been spent so far and what other priority works remain.***

**432/18 <u>External Audit:</u>**

The Clerk submitted, for information, an e-mail and letter regarding changes to the External Audit regime from 2020/21 onwards.

***Resolved to note the correspondence and await further information in due course.***

**433/18 <u>Appointment of Chair/Vice-Chair for 2019/20:</u>**

The Clerk submitted, for information, a section of the new Standing Orders, which require the Council to appoint the Chairman (and Vice-Chair) of the Standing Committees. The Members discussed how it was important for committee members to have confidence in their Chair and felt, therefore, that the Chair should be elected by the Committee itself and not the Council.

***Resolved to recommend that the Council amend Standing Order 4(d)(vi) to allow the Standing Committees to appoint their Chair.***

**434/18 <u>Local Members Ward Allowances:</u>**

The Clerk submitted further information in regard to Cllr J Pearson's project proposal deferred from the last meeting. The proposal had been referred to the General Purpose & Planning Committee meeting on the 19th March, where the Committee was happy in principle to support the proposal, after asking for the reasons the camera was needed and confirming that the local police were supportive. The General Purpose & Planning Committee had recommended the proposal be approved.

***Resolved to approve the project proposal and authorise payment.***

The Clerk then submitted/tabled, for consideration, project proposals from:

a. Cllr C Hughes - £50 contribution for dropped kerbs in the town centre
b. Cllr B Barton - £300 for defibrillators in Eirias Ward
c. Cllr A Kealey - £300 for Old Colwyn Football Club
d. Cllr A Mason - £600 for iPads at Ysgol Hen Golwyn
e. Cllr C Brockley - £200 towards Friends of Rhos on Sea
f. Cllr D Howcroft - £150 towards Llandrillo yn Rhos Charities
g. Cllr G Campbell - £150 towards Friends of Rhos on Sea
h. Cllr H Fleet - £100 towards Friends of Rhos on Sea
i. Cllr H Meredith - £300 towards a community skip (location to be confirmed)
j. Cllr M Tasker - £600 towards Friends of Rhos on Sea
k. Cllr S Williams - £150 towards Soup 'n' Sox Community Van Project

l. Cllr S Williams - £150 towards Colwyn Bay Youth Shedz Ltd
m. Cllr M Worth - £220 towards restoration of Andrew Fraser Memorial Clock
n. Cllr A Khan - £300 contribution towards gates at Theatr Colwyn
o. Cllr C Matthews - £150 towards ARC Communities Food Bank
p. Cllr D Bradley - £500 towards Old Colwyn Scouts central heating upgrade
q. Cllr MA Jones - £200 towards Old Colwyn Scouts central heating upgrade
r. Cllr M Jones - £300 towards a community skip on Tan y Lan Road, Old Colwyn
s. Cllr K Swindon - £170 towards Old Colwyn Scouts central heating upgrade

***Resolved to approve proposals a - s for payment.***

**435/18 <u>Microshade IT Services:</u>**

The Clerk submitted, for information, an e-mail advising that the cost of the Council's IT services will increase by £10.30 per month, due to an increase in the Microsoft software license costs.

***Resolved to note the increase in costs.***

**436/18 <u>Royal Mail:</u>**

The Clerk submitted, for information, details of an increase in the franked mail prices, with effect from 25 March. It was noted that the price of stamps had not yet increased.

***Resolved to note the increase in franked mail prices.***

**437/18 <u>Meeting Dates:</u>**

The Clerk submitted a request to delay the October meeting date by one week (from 2$^{nd}$ to 9$^{th}$ October), to enable her to attend the SLCC National Conference on 2$^{nd}$/3$^{rd}$ October.

***Resolved to approve an amendment to the October meeting date.***

**438/18 <u>Mayor's Masquerade Ball:</u>**

The Clerk read out, for information, an update from the Mayor, Cllr S Williams, confirming that sales for the Mayor's Masquerade Ball had been 'poor' and the Mayor has therefore, reluctantly, made the decision to cancel the event.

***Resolved to note and endorse the Mayor's decision to cancel the event.***

**439/18 <u>Grants:</u>**

**(a) Youth Grants:** The Clerk submitted, for consideration, additional information provided by the Orme Explorer Scouts in connection with the Youth Grant application for 2018/19.

***Resolved to note the additional information provided in support of the application and to authorise payment of the Youth Grant to Orme Explorer Scouts.***

**(b) Events Grants:**

**(i)** The Clerk submitted a Service Level Agreement from CAIS, who it was noted had agreed to administer the grant funding for the 2019 Forties Festival (instead of the North West Wales Food Group). Members welcomed the decision and felt it was a positive move.

***Resolved to note the SLA and authorise payment of the event funding to CAIS.***

**(ii) CCBC Events 2019**:

The Committee discussed the request made by Rachael Gill (CCBC) and Alun Pritchard (Motorsport UK), earlier in the meeting, for funding towards the Colwyn Bay/Rhos on Sea activities, to be held on Saturday 5th October 2019.

Members expressed concern over the carbon footprint of motorsports generally and queried whether road stages of the event send a wrong message to young drivers. A Member queried whether free activities re: sustainability / de-carbonisation, could be John offered to help to offset the environmental damage of motorsports.

***Resolved to recommend approving a payment of £15,000 (£5,000 from the Events budget, £10,000 from Access All Eirias budget 2019/20) towards Colwyn Bay / Rhos on Sea town centre activities, in connection with the Wales Rally GB event.***

***Further Resolved to request that the Clerk contacts Rachael Gill to explain concern about the Carbon footprint and the message we are sending our future generations, and ask whether some appropriate 'green' activities could be included in wider town centre activities, to help mitigate against this***

**(c) Small Grants:**

**(i)** The Clerk submitted for consideration small grant applications received for Q4, as detailed in Schedule 'B' attached.

***Resolved to recommend approval of grant applications, A, B, C, D, E and F, as detailed in Schedule 'B' attached.***

**(ii)** The Clerk submitted, for consideration, a request to make a donation from any remaining balance to the Sir John Henry Morris Jones Trust Fund and the Llandrillo yn Rhos Charities.

***Resolved to donate £1,500 to the Sir John Henry Morris Jones Trust Fund, and £890 to the Llandrillo yn Rhos Charities from the balance remaining in the small grants budget for 2018/19.***

**(iii)** The Clerk reminded the Committee that any underspend in the Councillor Allowance budget for 2018/19 will be transferred to the small grants budget for 2019/20. The amount was not yet known and the Clerk also requested that any Councillors travel claims to be submitted as soon as possible.

***Resolved to note.***

**(d)** It was noted that that letters of thanks have been received from the following grant recipients:
(i) Oriel Colwyn
(ii) Y Pentan

The meeting closed at 8.40pm.

………………………Chairman